

YSTAFELL NEWYDDION Y BOBL

GWNEUD ADDYSG YN HYGYRCH

YSGRIFENNWYD GAN BETHANY HANDLEY



Mae rhwystrau'n parhau yn ffordd myfyrwyr anabl sy'n ceisio mynediad i addysg uwch, ond fe'u lleihawyd gan addysg ar-lein yn ystod Covid. Dewch i ni beidio â mynd am yn ôl.

Mae myfyrwyr anabl wedi bod yn galw ar i brifysgolion gynnig addysg ar-lein ac wyneb yn wyneb ers blynyddoedd. Dros y cyfnod clo, fe lwyddodd prifysgolion i wneud rhywbeth "amhosib". Am y tro cyntaf, roedd gan fyfyrwyr anabl yr adnoddau oedd eu hangen arnon ni i ddysgu gartref dan ein pwysau ein hunain, ac fe wnaethon ni brofi beth sy'n bosib pan fydd addysg yn hygyrch. Ond mae sawl prifysgol yn mynd yn ôl i ddysgu wyneb yn wyneb yn llwyr nawr, ac mae llawer o rwystrau'n parhau i fyfyrwyr anabl.

Fe wnes i raddio'n ddiweddar o Brifysgol Caerdydd gyda BA mewn Newyddiaduraeth a Llenyddiaeth Saesneg. Oni bai am y pandemig a mabwysiadu dysgu ar-lein, ni fyddwn i wedi graddio oherwydd y rhwystrau y gwnes i eu profi fel myfyriwr anabl.

Serch hynny, ni ddylai myfyrwyr orfod dewis astudio o bell oherwydd rhwystrau mynediad; dylai myfyrwyr fod yn gallu cael mynediad i addysg ar-lein ar y dyddiau pan fydd angen iddyn nhw aros gartref.

Dwi'n gweithio i Diverse Cymru: elusen sy'n hybu cydraddoldeb i bawb yng Nghymru. Dan [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#), a ddaeth yn lle deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu flaenorol (gan gynnwys Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995), mae ar brifysgolion ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn myfyrwyr anabl a bod modd iddyn nhw gael mynediad i brifysgolion yn yr un modd ag y gall myfyrwyr nad ydynt yn anabl. Ond yn Diverse Cymru, rydyn ni'n gwybod bod myfyrwyr anabl yn parhau i brofi sawl rhwystr i addysg nad ydyn nhw'n effeithio ar fyfyrwyr heb anableddau yn yr un modd.

O amserlenni sy'n methu â chydabod heriau symud rhwng lleoliadau mewn prifysgolion, a diffygion cynnal a chadw lifftiau, i ddiffyg toiledau anabl, mae llawer o rwystrau corfforol yn parhau.

Roedd Ceri-Anne yn ei hail flwyddyn yn Royal Holloway yn astudio Drama ac Ysgrifennu Creadigol pan ddaeth y pandemig. Mae ei salwch hirdymor yn arwain at boen, blinder mawr a phroblemau symudedd.

Byddai hi'n cael dyddiau pan nad oedd hi'n gallu mynd i mewn i'r brifysgol yn gorfforol, oedd yn gwneud i Ceri-Anne deimlo'i bod hi'n "disgyn yn ôl... roedd pawb arall yn mynd i mewn."

“Mae [prifysgolion] yn gosod rhwystrau,” meddai Alexandra sy’n astudio Niwrowyddoniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, ac sy’n defnyddio cadair olwyn. “Dwi wedi gorfod gwastraffu fy holl egni ar geisio datrys sut i fynd i ddarlithoedd, seminarau, gan frwydro am fynediad. Mae [prifysgolion] yn llesteirio fy nghynnydd a’r hyn y gallaf i ei gyflawni.”

“...mae llawer o brifysgolion yn symud yn ôl at y modelau cyn y pandemig o ddysgu wyneb yn wyneb sy’n eithrio llawer o fyfyrwyr anabl a rhai heb anabledau.”

Yn sgil y pandemig, gwelwyd prifysgolion yn addasu’n sydyn i gynnig addysg ar-lein, gan ddileu llawer o rwystrau i addysg ar gyfer myfyrwyr anabl. Mae 69.9% o fyfyrwyr anabl yn y DU yn dweud bod dysgu ar-lein yr un mor hygyrch neu’n fwy hygyrch o’i gymharu â dysgu wyneb yn wyneb.

“Mae cael y dewis (yn ystod Covid) i astudio ar-lein wedi lleihau cymaint o’r anghysur corfforol a’r boen,” meddai Ceri-Anne.

Cafodd Emily ddiagnosis o Syndrom Blinder Cronig pan oedd hi’n 16. Oherwydd y cyfnod clo, astudiodd hi ar gyfer ei chymwysterau Safon Uwch gartref.

“Dwi ddim yn meddwl y gallwn i fod wedi ennill fy nghymwysterau, pe na byddai modd eu gwneud o’r gwely,” meddai hi.

“Fe welais fod ansawdd fy ngwaith yn gwella oherwydd doedd dim angen i mi dreulio fy holl egni ar gerdded i’r coleg neu ddelio â holl gynnwrf y dosbarth.”

Wrth astudio Therapi Galwedigaethol ym Mhrifysgol Caerdydd, fe welodd Emily fod addysg ar-lein yn cyfoethogi’i dysgu. “Ro’n i’n gallu’i oedi. Ro’n i’n gallu’i arafu. Ro’n i’n gallu gwneud 10 munud mewn darlith, gorffwyso ac wedyn dod yn ôl ati. Hyd yn oed pe na bai gen i anabled, roedd gallu’i oedi i ysgrifennu nodiadau’n anhygoel.”

Mae dysgu ar-lein hefyd yn helpu myfyrwyr i gael mynediad i holl brofiadau prifysgol yn hytrach na gorfod dewis rhwng astudio neu gymdeithasu.

“Ro’n i’n dal i allu cael yr agwedd gymdeithasol, sy’n bwysig iawn,” meddai Emily. “Mae fy nghyflwr wir yn tarfu ar yr agwedd gymdeithasol.”

Ond wrth gynnig addysg ar lein, mae’n hanfodol fod recordiadau o ddarlithoedd ar gael ar y dydd y cânt eu recordio, er mwyn sicrhau nad yw myfyrwyr yn cwmpo’n ôl.

“O gael recordiadau’r darlithoedd wedi’u rhyddhau wythnos yn ddiweddarach, roeddwn i ar ei hôl hi gyda rhai o fy modiwlau,” meddai Alexandra.

Yn anffodus, er gwaethaf protestiadau gan fyfyrwyr, mae llawer o brifysgolion yn symud yn ôl at y modelau cyn y pandemig o ddysgu wyneb yn wyneb sy’n eithrio llawer o fyfyrwyr anabl a rhai heb anabledau.

Yn ôl llefarydd ar ran Prifysgol Caerdydd, “Er ein bod ni’n parhau i fod yn brifysgol ble bydd y rhan fwyaf o’n myfyrwyr yn dychwelyd i astudio ar y campws, mae Caerdydd wedi gweld manteision clir yn sgil dysgu ar-lein ac addysg gyfunol, sydd wedi cyflwyno llawer iawn o hyblygrwydd, ac wedi arwain at ein gweld yn gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflwyno cynnwys hygyrch ac ymgysylltiad cynhwysol â myfyrwyr... Bydd y rhan fwyaf o’n darlithoedd (yn parhau i gael eu) recordio, a gall myfyrwyr gael gafael ar y rhan fwyaf ohonyn nhw ar-lein.”

Er gwaethaf y sicrwydd gan lefarydd Prifysgol Caerdydd, mae llawer o fyfyrwyr wedi canfod bod hyblygrwydd y cyfnod clo wedi cael ei anghofio, wrth i rai darlithoedd a’r rhan fwyaf o seminarau beidio â chael eu recordio. Er enghraifft, er bod angen darlithoedd wedi’u recordio ar Emily yn unol â’i gofynion mynediad, mae ei darlithwyr yn disgwyl iddi fynychu pob un o’i darlithoedd wyneb yn wyneb nawr.

“ni ddylai myfyrwyr orfod dewis astudio o bell oherwydd rhwystrau mynediad”

Mae Diverse Cymru’n galw ar i brifysgolion barhau i gynnig addysg wyneb yn wyneb ac ar-lein, ac ar yr un pryd sicrhau bod addysg uwch yn dod yn fwy hygyrch.

“Gallai 90% o’r problemau hygyrchedd a wynebais i yn y brifysgol fod wedi cael eu dileu pe bai dysgu ar-lein yn rhan naturiol, amlycach o system y brifysgol,” meddai Ceri-Anne.

Pwysleisiodd Prifysgol Caerdydd ei bod hi’n “Hanfodol fod myfyrwyr yn cysylltu â’n Gwasanaeth Anabledd Myfyrwyr i sicrhau bod addasiadau addas a phwrpasol yn cael eu trafod, eu hystyried a’u rhoi ar waith ar gyfer pob agwedd ar eu hastudiaethau.”

Serch hyn, ni ddylai myfyrwyr anabl orfod gofyn am fynediad i addysg ar-lein, ond dylai fod yn ddewis awtomatig. Ni ddylai’r pwyslais fod ar y myfyriwr i eiriol am eu hanghenion mynediad eu hunain, boed y myfyrwyr hynny’n anabl ai peidio.

“Roedd y dewisiadau dysgu hybrid gafodd eu cynnig o ganlyniad i Covid o fudd i gynifer o bobl: yn bobl anabl neu abl. Mae darparu’r dewisiadau hyn yn creu lle academiaidd cymaint mwy cynhwysol a chyfartal,” meddai Ceri-Anne.

Mae Emily ac Alexandra wedi dechrau cymdeithas ym Mhrifysgol Caerdydd lle gall myfyrwyr Anabl ffurfio cymuned. Maen nhw eisiau gweld prifysgolion yn parhau i gynnig dysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein ac ar yr un pryd byddan nhw'n gweithio i wneud y brifysgol yn fwy hygyrch. "Dydyn ni ddim yn gofyn am bethau dramatig, maen nhw'n bethau all ddigwydd yn hawdd," medden nhw.

Mae Diverse Cymru'n gweithio i'r cyfeiriad hwnnw drwy alw ar i brifysgolion sicrhau tri pheth. Yn gyntaf, fod modd i fyfyrwyr Anabl gael mynediad i'w holl ddysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Yn ail, bod pob cynnwys a gaiff ei recordio ar gael i fyfyrwyr ar y diwrnod mae'n cael ei recordio. Yn drydydd, fod myfyrwyr Anabl yn arwain y sgysiau o ran sut i wneud prifysgolion yn fwy hygyrch.

Fel myfyrwyr Anabl, byddai ein prifysgol ddelfrydol yn amserlennu ar sail anghenion mynediad myfyrwyr, yn cynnig campws cwbl hygyrch, a byddai'r holl ddysgu'n cael ei recordio. Byddai pob myfyriwr Anabl yn cael eiriolwr wedi'i glustnodi adeg dechrau yn y brifysgol a fyddai'n sicrhau bod eu hanghenion mynediad yn cael eu diwallu. Gall prifysgolion wireddu'r freuddwyd hon, gan hyrwyddo cynhwysiant ac arwain y ffordd ar gyfer creu cymdeithas fwy cyfartal.

GALWAD



CREATIVITY IN THE UK



Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD can Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.